



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Caer Drewyn  
Clawdd Poncen  
Corwen  
Sir Ddinbych  
LL21 9RT**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
<b>Rhagorol</b>	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
<b>Da</b>	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
<b>Digonol</b>	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
<b>Anfoddhaol</b>	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/06/2014

## Cyd-destun

Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn ardal Clawdd Poncen sydd ar gyrion trefn fechan wledig Corwen yn Sir Ddinbych. Mae 90 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol gan gynnwys 19 o blant meithrin rhan-amser. Maent wedi'u trefnu yn bedwar dosbarth oed cymysg.

Mae bron pob disgybl o gartrefi lle y siaredir y Saesneg fel iaith gyntaf. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae gan bron i hanner y disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n sylweddol uwch na'r ganran genedlaethol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion â datganiad statudol o anghenion addysgol arbennig. Mae 35% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim, sydd yn llawer uwch na'r ffigwr cenedlaethol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Caer Drewyn yn 2013-2014 yw £5,023. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Ddinbych yw £8,594 a'r lleiafswm yw £3,159. Mae Ysgol Caer Drewyn yn safle 16 o'r 48 ysgol gynradd yn Sir Ddinbych o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 2005. Mae'r ysgol ers Medi 2012 wedi cyfuno gydag Ysgol Carrog i greu ysgol ffederal sydd o dan arweiniad pennaeth Ysgol Caer Drewyn.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn ystod Chwefror 2008.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a rhifedd;
- bron pob disgybl yn ymdrechu'n galed ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu
- ymddygiad yn gyson dda gyda'r holl ddisgyblion yn cymdeithasu'n hapus;
- llais y disgybl yn cael lle blaenllaw ym mywyd a gwaith yr ysgol;
- addysgu da yn cymhell disgyblion i wneud eu gorau ac yn ennyn eu diddordeb a'u brwdfrydedd;
- trefniadau asesu a hunanasesu yn cyfrannu'n dda tuag at gynnydd a lles disgyblion; ac
- ansawdd y gofal, cymorth ac arweiniad yn cyfrannu'n gryf tuag at greu amgylchedd dysgu cynhwysol a gofalgar.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer arwain a datblygu'r ysgol;
- yr ysgol yn adnabod ei hun yn dda ac yn gyson yn archwilio ffyrdd i wella;
- athrawon yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n effeithiol;
- ystod eang o bartneriaethau yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion;
- llywodraethwyr yn gofyn cwestiynau'n hyderus ac yn llwyddo i ddwyn yr ysgol i gyfri' am ansawdd ei darpariaeth a'i safonau;
- yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol o fewn cymunedau dysgu proffesiynol, gyda hyn yn cyfrannu'n arwyddocaol at wella'r ddarpariaeth addysgol; ac
- arweinwyr yn rheoli adnoddau'r ysgol yn fedrus gan sicrhau gwerth da a arian.

## Argymhellion

A1 Gwella gallu disgyblion i ddefnyddio technoleg rheolaeth

A2 Gwella ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion cyfnod allweddol 2

A3 Darparu my o gyfleoedd i ddisgyblion gofnodi yn eu geiriau eu hunain

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Mae medrau llythrennedd a rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn dda.

Wrth ymwneud â thasgau ymarferol dan do neu yn yr ardaloedd y tu allan, mae bron pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn trafod eu gwaith yn synhwyrol ac yn cyfathrebu'n effeithiol gyda'i gilydd a chydag oedolion. Maent yn dangos hoffter tuag at lyfrau ac yn darllen gyda chywirdeb cynyddol gan dalu sylw da i fynegiant a thestun. Erbyn pen uchaf y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n ddealladwy ac yn cyflwyno darnau dychmygus a diddorol. Mae geiriau cyfarwydd, fel rheol, yn cael eu sillafu'n gywir a'r gwaith wedi'i gyflwyno'n ddestlus.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn trafod eu dysgu'n ddeallus ac yn esbonio gwybodaeth a syniadau'n eglur. Mae'r rhan fwyaf yn darllen yn hyderus ac yn defnyddio ystod eang o strategaethau i ddeall ystyr geiriau a brawddegau. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso eu medrau darllen yn effeithiol ar gyfer cywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau megis llyfrau a gwefannau. Er bod bron pob disgybl erbyn Blwyddyn 5 yn ysgrifennu'n dda i i ystod eang o ddibenion, nid yw llawer ohonynt y cynhyrchu llawysgrifen digon clir ac mae cyflwyniad eu gwaith yn dueddol i fod yn ddi-raen.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio eu medrau rhif a mesur gyda chywirdeb cynyddol, yn arbennig wrth ymwneud â thasgau ymarferol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae gan bron pob un afael gadarn ar brosesau adio a thynnu, maent yn trin a thrafod arian yn gywir ac maent yn defnyddio mesurau safonol hyd a màs yn bwrpasol.

Mae gallu disgyblion cyfnod allweddol 2 i ddefnyddio ffeithiau rhif ac i wneud cyfrifiadau yn y pen, yn gryfder. Erbyn blynyddoedd 5 a 6, mae bron pob disgybl yn ymdrin â rhifau pum digid a chanrannau'n hyderus ac yn defnyddio nifer o strategaethau ar gyfer gwirio eu hatebion. Wrth ymwneud ag ymchwiliadau gwyddonol, mae'r disgyblion hyn yn casglu data o nifer o ffynonellau ac yn ei gyflwyno'n fedrus ar ffurf tablau a graffiau. Mae gallu'r rhan fwyaf yn y cyfnod allweddol i gymhwyso eu medrau rhifedd ar gyfer datrys problemau ymarferol, yn dda.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio offer a rhaglenni technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn fedrus iawn ac at wahanol ddibenion, ond nid yw eu medrau technoleg rheoli wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae bron pob disgybl ar draws yr ysgol yn ymdrechu'n galed mewn gwersi ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau ar dasgau, maent yn effro i holi ac ateb cwestiynau ac yn trafod eu tasgau yn hyderus. Erbyn Blwyddyn 3, mae'r rhan fwyaf yn arfarnu eu gwaith yn feddylgar ac yn adnabod yr hyn sydd angen ei wneud i'w wella.

Mae cyrhaeddiad disgyblion mewn Cymraeg ail iaith yn dda. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn ymhyfrydu yn eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg ac, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn siarad, darllen ac ysgrifennu i safon sy'n gydnaws â'u hoedran a'u gallu ieithyddol.

Mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill sydd â chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i ginio am ddim, roedd perfformiad yr ysgol mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol yn y Cyfnod Sylfaen yn 2012 yn y 25% uwch yn y ddau bwnc. Yn 2013, roedd perfformiad mewn llythrennedd yn y 50% is tra bod perfformiad mewn datblygiad mathemategol yn y 50% uwch. Roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd ar y deiliant uwch yn ystod 2012 ac yn 2013 gan amlaf yn y 50% uwch o ysgolion sydd â chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i ginio am ddim.

Mae perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 wedi amrywio'n sylweddol dros y cyfnod 2010 – 2013. O gymharu ag ysgolion gyda chanran debyg o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim, mae perfformiad mewn Saesneg, mathemateg gwyddoniaeth yn ystod y cyfnod 2010 i 2012 gan amlaf, wedi bod yn y 50% isaf o ysgolion. Mae perfformiad yn 2013 ar lefel 4 yn y 50% isaf mewn Saesneg ac yn y 25% isaf mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Mae cyfran disgyblion cyfnod allweddol 2 a gyflawnodd ar y lefel uwch yn ystod y cyfnod 2010 i 2013 wedi amrywio'n flynyddol o'r 25% uwch i'r 25% isaf o ysgolion tebyg.

### **Lles: Da**

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn amgylchedd yr ysgol ac yn rhydd oddi wrth unrhyw gamdriniaeth gorfforol neu eiriol. Mae gan bron pob un ddealltwriaeth gadarn o sut i ddod yn iach ac maent yn gwerthfawrogi bod bwydydd iach ac ymarfer corfforol rheolaidd yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u datblygiad.

Yn ystod gwersi, mae bron pob disgybl yn weithgar a brwdfrydig, maent yn cydweithio'n gytûn ac yn cadw'n ddiwyd ar dasg dros gyfnodau estynedig. Mae safonau ymddygiad yn gyson dda gyda'r holl ddisgyblion yn cymdeithasu a chwarae'n hapus gyda'i gilydd. Yn ddiwahân, mae disgyblion yn barchus a chwrtais tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Gwna hyn gyfraniad sylweddol at greu ethos dymunol sy'n hyrwyddo dysgu effeithiol.

Mae'r bri a roddir ar roi lle blaenllaw i lais y disgybl ym mywyd a gwaith yr ysgol yn cryfhau eu hymglymiad i'w dysgu a'u cymuned leol. O oedran cynnar, mae cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion wneud dewisiadau ynghylch eu dysgu ac i gyfrannu eu syniadau i gynnwys y cwricwlwm. Mae disgyblion hŷn yn ymuno gyda'r llywodraethwyr ar eu taith gwricwlaidd o gwmpas yr ysgol a thrwy'r cyngor ysgol, y pwyllgor eco a'r llysgenhadon cânt gyfleoedd gwerthfawr i ddewis gweithgareddau penodol ar gyfer gwahanol achlysuron, megis diwrnodau thematig.

Mae disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol. Mae cyfraddau presenoldeb wedi bod yn gyson dda dros y pum mlynedd diwethaf ac wedi bod yn uwch na chyfraddau ysgolion sydd gyda chanran debyg o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>
--

<b>Da</b>
-----------

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amrediad eang o brofiadau dysgu symbylus sydd yn cyfarfod ag anghenion yr ystod lawn o ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae cynllunio yn y Cyfnod Sylfaen wedi'i seilio'n gadarn ar y chwe maes dysgu ac ar roi rôl weithredol i ddisgyblion yn eu dysgu. Mae'r cwricwlwm ar ddechrau cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth a dealltwriaeth bresennol disgyblion ac yn sicrhau bod dilyniant a pharhad yn eu dysgu. Mae'r ddarpariaeth sydd ar gyfer sicrhau bod disgyblion o bob oedran yn caffael medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol, yn arwain at safonau cyflawniad da. Mae'r ysgol yn ddiweddar wedi dechrau ymgorffori gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn ei chynlluniau tymhorol.

Elfen gref o'r ddarpariaeth addysgol yw'r anogaeth gaiff disgyblion o bob oedran i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol ac i wneud dewisiadau ynghylch eu dysgu.

Mae'r ystod fuddiol o brofiadau ychwanegol, sy'n cynnwys ymweliadau addysgol a'r cyfleoedd i gystadlu a pherfformio mewn eisteddfodau, yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn sylweddol. Mae'r ysgol yn manteisio'n llawn ar ymweliadau gan artistiaid lleol a thrwy hyn mae'r disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o dechnegau celf amrywiol yn dda.

Trwy weithgarwch y pwyllgor eco a'r clwb garddio a chymryd rhan mewn ymgyrchoedd codi arian at wahanol elusennau, mae cyfleoedd da i ddisgyblion ddysgu am bwysigrwydd cynaladwyedd ac iddynt ddod yn fwy ymwybodol o'u rôl mewn cymdeithas a'r byd ehangach.

Mae darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu'r Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig. Mae'r Gymraeg yn weladwy iawn yn amgylchedd yr ysgol ac mae pwyslais cryf yn y cwricwlwm ar godi ymwybyddiaeth disgyblion o hanes, daearyddiaeth a thraddodiadau Cymru.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu effeithiol yn deillio ar ddysgu da sy'n cymell disgyblion i wneud eu gorau ac yn ennyn eu diddordeb a'u brwdfrydedd. Mae gan athrawon a chymorthyddion wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn defnyddio ystod eang o strategaethau i ysbrydoli a herio'r disgyblion. Mae'r berthynas waith agos rhwng y staff a disgyblion yn creu ethos gweithgar a chynhaliol sy'n hybu dysgu effeithiol.

Mae'r arfer o rannu nodau'r gwersi ynghyd â'r meini prawf llwyddiant gyda disgyblion yn arwain at ddisgwyliadau clir a gweithio cynhyrchiol. Mae'r cyfleoedd cyson sydd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu gwaith ynghyd â'r defnydd rheolaidd o'r Gymraeg gan athrawon yn ystod sesiynau, yn nodweddion cryf o'r addysgu. Mae'r arferion hyn yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at ddatblygiad personol ac addysgol pob disgybl. Fodd bynnag, mae'r gordddefnydd o daflenni gwaith yng nghyfnod allweddol 2 mewn pynciau megis gwyddoniaeth, yn cyfyngu ar gyfleoedd disgyblion i ddyfeisio dulliau eu hunain o gofnodi.



Mae'r drefn ysgol gyfan sydd wedi'i sefydlu ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion yn cael ei defnyddio'n effeithiol i gadw llygaid parhaus ar gynnydd pob disgybl ac i adnabod y rheini sydd angen cymorth ychwanegol.

Mae'r adborth manwl ar lafar i grwpiau ac unigolion yn ystod sesiynau ynghyd ag adborth ysgrifenedig yn dilyn marcio gwaith, yn helpu disgyblion i wybod pa mor dda y maent ei wneud ar hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.

Mae'r cyfleoedd rheolaidd a gaiff disgyblion cyfnod allweddol 2 i hunanasesu ac i gael eu hasesu gan gyfoedion a phennu targedau personol, yn cyfrannu'n dda tuag at eu cynnydd a'u lles.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni ar gynnydd eu plant o ansawdd da ac yn cynnwys sylwadau cynhwysfawr a phersonol am gyflawniad a chynnydd.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgwr lle mae oedolion a disgyblion yn dangos gofal a pharch tuag at ei gilydd ac eraill yn dda iawn. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed iach. Mae'r amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol rheolaidd fel ymarferion pêl-droed a chriced, yn cynnig profiadau gwerthfawr i hybu lles a ffitrwydd yr holl ddisgyblion.

Mae trefniadau trylwyr ac effeithiol ar gyfer adnabod a chefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gyda'r cydlynnydd dynodedig yn rhoi arweiniad clir i athrawon a llywodraethwyr yr ysgol. Trwy ymyrraeth gynnar, mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth effeithiol i'r disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol gyda'u gwaith. Mae'r cynlluniau addysgu unigol yn gosod targedau clir a phriodol ac yn cael eu hadolygu a'u monitro'n rheolaidd. Cânt effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion.

Mae cysylltiadau arbennig o effeithiol rhwng yr ysgol ac amrywiaeth o asiantaethau allanol fel seicolegwyr addysg, gwasanaeth ar gyfer y rhai trwm eu clyw a therapyddion galwedigaethol. O ganlyniad, mae ansawdd y gofal a'r gynhaliadaeth i'r disgyblion yn dda iawn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chynhwysol sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal yn dda. Mae'n darparu amgylchedd dysgu deniadol ac ysgogol sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn sylweddol. Mae amgylchedd ffisegol yr ysgol yn dda gyda digon o ofod ac ystafelloedd dysgu sy'n cynnwys arddangosfeydd diddorol a gwaith celf symbylus. Mae hyn yn ysgogi diddordeb disgyblion ac yn hyrwyddo dysgu effeithiol.

Mae'r adeiladau'r ysgol a'r tiroedd helaeth o'i chwmpas yn cael eu defnyddio'n effeithiol gan ddisgyblion ac oedolion ac yn cael eu cynnal yn dda. Caiff yr ardd a'r tŷ gwydr eu defnyddio'n bwrpasol ar gyfer dibenion y disgyblion. Mae'r holl safle yn cael ei gadw'n raenus ac yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon gan ddisgyblion ac athrawon.

Mae cyflenwad helaeth o adnoddau pwrpasol sydd o ansawdd da yn y dosbarthiadau. Mae hyn yn cynnwys offer cyfrifiadurol megis cyfrifiaduron tabled, sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol gan ddisgyblion ac athrawon i gefnogi dysgu ac addysgu.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir i arwain ysgol gynhwysol lle mae pob disgybl yn bwysig ac yn cyrraedd ei lawn botensial. Mae'n rhannu'r weledigaeth yn bwrpasol gyda staff a llywodraethwyr er mwyn gwella cyrhaeddiad a lles disgyblion. Mae'r dirprwy bennaeth yn ei chefnogi'n effeithiol iawn ac fel uwch dŵm rheoli, maent yn darparu ffocws clir i waith yr ysgol. Maent yn gwerthfawrogi cyfraniad y staff i gyd ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonynt. Mae'r staff i gyd yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n drylwyr. Mae trafodaethau arweinwyr a staff yn sicrhau gwelliannau mewn dysgu ac addysgu a chaiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar safonau gwaith disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r pennaeth a'r staff ac yn cyfrannu'n gyson at bennu cyfeiriad strategol i waith a bywyd yr ysgol. Maent yn derbyn ystod eang o wybodaeth gan y pennaeth ac mae hyn yn eu galluogi i ddeall perfformiad yr ysgol yn dda. Maent yn gofyn cwestiynau'n hyderus ac yn llwyddo i ddwyn yr ysgol i gyfri' am ansawdd ei darpariaeth a'i safonau. Mae cysylltiadau da rhwng llywodraethwyr, staff a disgyblion a, thrwy deithiau cwricwlaidd ar y cyd, maent yn cyd-arfarnu agweddau gwahanol o'r ddarpariaeth addysgol yn effeithiol iawn.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi'i sefydlu'n llwyddiannus ac mae athrawon eisoes wedi dechrau ymateb i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd diweddar. Mae nifer o strategaethau cynhwysfawr wedi'u sefydlu ar gyfer sicrhau nad oes yr un disgybl yn dioddef oherwydd anfantais ac mae'r rhain yn gwella lles a chyrhaeddiad disgyblion yn sylweddol.

### **Gwella ansawdd: Da**

Mae'r adroddiad hunan-arfarnu o ansawdd da ac yn rhoi darlun cywir a chytbwys o'r ysgol. Mae gan arweinwyr, staff a llywodraethwyr ddealltwriaeth glir iawn o'i chryfderau a'r agweddau y mae angen eu gwella.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer arsylwi ar wersi, craffu ar waith disgyblion a chynnal teithiau cwricwlaidd i staff, llywodraethwyr a disgyblion o gwmpas y dosbarthiadau. Trwy ddadansoddi ystod eang o wybodaeth am

berfformiad a darpariaeth yr ysgol yn ofalus, mae arweinwyr ac athrawon yn adnabod blaenoriaethau datblygu yn glir. Maent yn rhoi ystyriaeth lawn i farn rhieni drwy holiaduron cyson, sylwadau ar adroddiadau blynyddol eu plant, a thrwy ddarparu blwch awgrymiadau. Trwy'r cyngor ysgol, y cyngor eco a blwch gofid, mae cyfleoedd priodoll i ddisgyblion fynegi barn am safonau a darpariaeth.

Mae cyswllt clir rhwng deilliannau'r adroddiad hunan-arfarnu a blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol. Mae arweinwyr yn gosod targedau heriol ar gyfer gwella safonau, ac o'r herwydd mae'r ddogfen yn un defnyddiol a pherthnasol sy'n arwain at welliannau pellach mewn cyflawniad a darpariaeth.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ystod eang o bartneriaid sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau cyrhaeddiad a lles disgyblion. Mae perthynas gadarn rhwng yr ysgol a'r rhieni. Enghraifft dda o hyn yw'r sachau stori a'r offer ffoneg a mathemateg sydd wedi eu darparu i helpu rhieni i weithio gyda'u plant. Mae'r cydweithio da iawn sy'n deillio o brosiect lleol yn sicrhau bod rhieni yn derbyn cyngor, cefnogaeth a chyfarwyddyd o ansawdd uchel sy'n eu helpu i ddatrys problemau ymarferol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar les a chyrrhaeddiad disgyblion.

Mae'r berthynas gadarnhaol â'r cylch meithrin a meithrinfa leol yn sicrhau bod plant yn ymsefydlu'n llwyddiannus iawn pan ddônt i'r ysgol. Mae'r trefniadau pontio cynhwysfawr â'r ysgol uwchradd yn sicrhau bod disgyblion yn symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg yn hyderus. Cydweithia athrawon yn gyson gydag athrawon ysgolion eraill y clwstwr i safoni gwaith disgyblion yn y pynciau craidd ac mae penaethiaid y clwstwr yn cyfarfod yn gyson i rannu arfer dda a thrafod ariannu prosiectau cwricwlaidd penodol.

Mae gan yr ysgol le arwyddocaol yn y gymuned leol. Elfen bwysig o hyn yw'r berthynas â chlybiau chwaraeon tref Corwen. Mae cysylltiadau clos gyda'r eglwys a'r capel gyda'r ysgol yn cynnal gwasanaethau a chyngherddau yn yr addoldai. Mae rhieni disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn derbyn cefnogaeth gref trwy ymuno â chynlluniau teulu ac mae asiantaethau cymunedol hefyd yn elwa'n fawr o gynnal sesiynau ar safle'r ysgol.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau'r ysgol yn fedrus. Mae'r pennaeth yn trefnu staff addysgu yn effeithiol ac yn cefnogi'n bwrpasol er mwyn gwneud y defnydd gorau o'u gwybodaeth a'u medrau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu wedi'u threfnu'n dda ac mae athrawon yn defnyddio'r amser hwn yn effeithiol. Mae trefniadau da ar gyfer datblygiad proffesiynol staff ac mae gweithdrefnau rheoli perfformiad pwrpasol yn sicrhau bod y staff i gyd yn rhan o'r broses.

Gweithia'r ysgol yn effeithiol o fewn cymunedau dysgu proffesiynol gydag ysgolion y clwstwr a gyda grŵp penodol o ysgolion ac mae hyn yn cyfrannu'n arwyddocaol at wella'r ddarpariaeth addysgol. Enghreifftiau da yw eu cydweithio i godi safonau darllen yn y Cyfnod Sylfaen ac i ddatblygu medrau ymchwilol disgyblion.

Gyda chefnogaeth swyddog yr awdurdod lleol a'r corff llywodraethol, mae'r pennaeth yn rheoli'r defnydd o adnoddau ariannol yn ofalus i gefnogi blaenoriaethau'r ysgol. Er bod gan yr ysgol warged sylweddol wrth gefn, mae gan y llywodraethwyr gynllun i'w gwario yn y dyfodol agos. O ystyried y deilliannau da ac ansawdd uchel y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

Roedd cyfran y disgyblion a gyrhaeddodd y deilliant 5 disgwylidig mewn llythrennedd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2013 yn debyg i gyfartaledd ysgolion y teulu ond ychydig yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Roedd perfformiad mewn datblygiad mathemategol ychydig yn uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru gyfan. Roedd y gyfran yn cyflawni ar y deilliant uwch yn debyg i gyfartaleddau'r teulu a'r cyfartaleddau cenedlaethol mewn llythrennedd ac yn llawer uwch mewn datblygiad mathemategol. Roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd ddangosydd y Cyfnod Sylfaen, sef deilliant 5 neu uwch yn y ddau faes dysgu, yn debyg i berfformiad y teulu a Chymru gyfan.

Mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill sydd â chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i ginio am ddim, roedd perfformiad yr ysgol mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol yn y Cyfnod Sylfaen yn 2012 yn y 25% uwch yn y ddau bwnc. Yn 2013, roedd perfformiad mewn llythrennedd yn y 50% is tra bod perfformiad mewn datblygiad mathemategol yn y 50% uwch. Roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd ar y deilliant uwch yn ystod 2012 ac yn 2013 gan amlaf yn y 50% uwch o ysgolion sydd â chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i ginio am ddim.

Roedd cyfran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel 4 disgwylidig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2013 mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth gan fwyaf, yn debyg i gyfartaleddau ysgolion y teulu a'r cyfartaleddau cenedlaethol. Roedd y gyfran a gyrhaeddodd y lefel uwch yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru gyfan yn y tri maes. Roedd y gwahaniaeth mwyaf mewn gwyddoniaeth gyda neb yn cyrraedd y lefel 5 uwch.

Mewn dwy o'r tair blynedd dros y cyfnod 2010 i 2012, mae'r gyfran o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyflawni ar y lefel 4 disgwylidig o gymharu ag ysgolion gyda chanran debyg o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim, wedi bod yn y 50% is ym mhob pwnc. Fodd bynnag, yn ystod 2012, roedd perfformiad yn y pedwar pwnc yn y 50% uwch o ysgolion. Yn 2013, roedd perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth ymhlith y 25% isaf a pherfformiad Saesneg ymhlith y 50% is o ysgolion. Mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd ar y lefel uwch yn ystod y cyfnod 2010 i 2012 ac yn ystod 2013 wedi amrywio'n flynyddol o'r 25% uwch i'r 25% isaf o ysgolion sydd â chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i ginio am ddim.

Nid oedd unrhyw dueddiad cyson o wahaniaethau mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched o un flwyddyn i'r llall. Mae disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â gweddill y fintai.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid – ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

#### Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

*Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.*

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	42	41 98%	1 2%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	42	41 98%	1 2%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	42	42 100%	0 0%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	42	41 98%	1 2%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		98%	2%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	42	39 93%	3 7%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	42	36 86%	6 14%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	42	41 98%	1 2%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	42	39 93%	3 7%	Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	42	35 83%	7 17%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	42	38 90%	4 10%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	42	20 48%	22 52%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	42	38 90%	4 10%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	24	21 88%	3 12%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		63%	33%	3%	1%		
My child likes this school.	24	22 92%	2 8%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		72%	26%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	24	21 88%	3 12%	0 0%	0 0%	0	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		72%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	24	20 83%	4 17%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		61%	34%	3%	1%		
Pupils behave well in school.	24	14 58%	10 42%	0 0%	0 0%	0	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		45%	46%	4%	1%		
Teaching is good.	24	21 88%	3 12%	0 0%	0 0%	0	Mae'r addysgu yn dda.
		60%	35%	2%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	24	21 88%	3 12%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		63%	34%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	22	15 68%	4 18%	1 5%	0 0%	2	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		47%	40%	6%	1%		
Staff treat all children fairly and with respect.	24	17 71%	7 29%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		58%	34%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	24	17 71%	7 29%	0 0%	0 0%	0	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		59%	36%	2%	0%		
My child is safe at school.	24	22 92%	2 8%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		66%	31%	1%	0%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	23	20 87%	3 13%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		50%	34%	4%	1%		
I am kept well informed about my child's progress.	24	20 83%	4 17%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhentyn.
		49%	41%	8%	2%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	24	22 92%	2 8%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		62%	31%	4%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	24	16 67%	7 29%	0 0%	0 0%	1	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		44%	39%	7%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	24	19 79%	5 21%	0 0%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		56%	39%	2%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	18	13 72%	3 17%	1 6%	0 0%	1	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		42%	34%	4%	1%		
There is a good range of activities including trips or visits.	23	15 65%	6 26%	0 0%	0 0%	2	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		53%	38%	5%	1%		
The school is well run.	24	20 83%	4 17%	0 0%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		61%	33%	3%	2%		

### Atodiad 3

#### Y tîm arolygu

William Williams	Arolygydd Cofnodol
Rhiannon Harris	Arolygydd Tîm
Gwen Aubrey	Arolygydd Lleyg
Gwyneth Hughes	Arolygydd Cymheiriaid
Jayne Davies	Enwebai



## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

### Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

## Rhestr termau – Cynradd

### **Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeiliant 1 i ddeiliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deiliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deiliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### **Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.